# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Danybryn**

**Cartref Danybryn Cheshire**
**Heol Isaf, Radur**
**Caerdydd**
**CF15 8AJ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

13/02/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Danybryn

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Leonard Cheshire Disability |
| Lleoedd cofrestredig | 31 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 18 Hydref 2022 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Gall cartref Danybryn ddarparu ar gyfer 31 o breswylwyr ag anghenion nyrsio a/neu anghenion gofal preswyl. Cynhaliwyd yr arolygiad hwn yn ddirybudd. Mae rheolwr yn ei le, sydd wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu, yn unol â'r gofyniad cyfreithiol. Nia Golding yw unigolyn cyfrifol y gwasanaeth.

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth priodol gan dîm cyfeillgar o staff. Mae digon o staff ar gael i ddarparu gofal a chymorth, gyda threfniadau addas ar waith i unioni'r sefyllfa os bydd prinder staff gyda staff asiantaeth rheolaidd. Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n addas ar gyfer eu hanghenion. Mae darparu gweithgareddau a chymorth yn unol â diddordebau a dymuniadau'r bobl yn flaenoriaeth yn y gwasanaeth.

Mae'r tîm rheoli yn weladwy ac yn cymryd rhan yn y gwaith o redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd. Mae systemau ar waith i sicrhau ansawdd y gofal a chymorth a ddarperir. Mae'r ddogfennaeth gofal yn adlewyrchu anghenion gofal ac iechyd/nyrsio y bobl sy'n byw yn y cartref.

Mae amgylchedd y cartref yn ddiogel. Ymgynghorir â'r bobl am y gofal a'r cymorth a ddarperir iddynt. Mae prosesau atal a rheoli heintiau ar waith i leihau'r risg o ledaenu clefydau heintus drwy'r cartref.

## Llesiant

Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch. Caiff y canlyniadau i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth eu cyflawni'n gyson ac maent o ansawdd uchel iawn. Cefnogir y bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus yng nghartref Danybryn a'u bod yn mwynhau cydberthnasau cadarnhaol â'r staff. Mae'r sylwadau'n cynnwys, *"staff are so good to us here"* ac *"we are looked after very well, staff are amazing."*
Mae'r staff gofal yn hapus ac yn frwdfrydig iawn am weithio yn y gwasanaeth. Mae'r sylwadau yn cynnwys, *"I absolutely love my job here, we are supported really well by the managers here"* ac *"we are a good team, we all work really well together."*

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i gael rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd lle bynnag y bo'n bosibl. Mae'r bobl ar y cyfan yn dilyn eu harferion eu hunain gyda chefnogaeth, cymorth ac anogaeth gan y tîm o staff. Roedd y staff gofal y gwnaethom siarad â nhw yn gyfarwydd â dewisiadau ac anghenion unigol y bobl a chaiff y rhain eu cofnodi yn y ddogfennaeth gofal. Dywedodd y bobl wrthym y gwrandewir ar eu safbwyntiau a'u barn ac y gallant godi unrhyw bryderon â'r tîm o staff neu'r tîm rheoli.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth a niwed. Caiff y staff gofal hyfforddiant ar ddiogelu ac mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i'w harwain. Mae gwiriadau recriwtio diogel yn cael eu cynnal er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn addas i weithio gyda phobl agored i niwed. Mae hyfforddiant y staff yn gyfredol a chaiff hyfforddiant ychwanegol ei gynnig. Mae'r gwasanaeth yn gwneud atgyfeiriadau diogelu pan fo angen ac yn rhoi gwybod i AGC am ddigwyddiadau hysbysadwy mewn modd amserol. Mae adborth y bobl sy'n byw yn y cartref a'r bobl sy'n ymweld ag ef yn '*very good*'. Mae mesurau ar waith i hybu arfer gorau drwy'r cartref. Mae'r tîm rheoli yn goruchwylio digwyddiadau, damweiniau, cwynion a materion diogelu yn dda. Mae datganiad o ddiben ar gael sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth.

Mae'r bobl yn ddiogel ac yn cael gofal a chymorth priodol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Caiff eu dymuniadau a'u dyheadau eu hystyried, ac mae'r staff gofal yn barod i helpu ac yn gweithredu mewn modd cyfeillgar. Mae'r ddogfennaeth gofal yn cefnogi'r ddarpariaeth gofal a chymorth, ond gwnaethom drafod â'r staff lle y gellir gwneud gwelliannau. Caiff y bobl eu hannog i gael ymwelwyr ac mae'r staff yn eu helpu i gadw mewn cysylltiad â chysylltiadau pwysig.

Mae llesiant corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol y bobl yn cael eu cefnogi gan y gwasanaeth. Mae'n amlwg bod y tîm nyrsio a'r tîm staff gofal yn goruchwylio'r rhain, maent yn cwblhau dogfennaeth briodol yn ddyddiol a chaiff adolygiadau rheolaidd eu cynnal er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael y cymorth cywir.

## Gofal a Chymorth

Mae systemau ar waith i ddiogelu'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn byw yn y gwasanaeth. Mae sylwadau gan y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn cynnwys, *"This home is wonderful; I feel listened to here for the first time ever," "the staff are so kind to us"* (preswylydd). Gwelsom fod iaith y corff ac ystumiau'r bobl yn dangos eu bod yn teimlo'n ddiogel ymysg y staff gofal sy'n eu cefnogi. Yn ystod yr ymweliad, gwelsom ymwelwyr yn y cartref a'r bobl yn chwerthin a oedd yn creu amgylchedd cartrefol ac yn sicrhau bod y bobl yn dangos ymdeimlad o berthyn. Mae systemau ar waith i sicrhau bod y bobl yn parhau'n ddiogel wrth hybu eu hannibyniaeth. Mae polisi diogelu ar gael sy'n rhoi gwybod i'r staff am eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas ag amddiffyn oedolion sydd mewn perygl o niwed, camdriniaeth ac esgeulustod. Roedd y cofnodion a welsom yn dangos bod y staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar ddiogelu.

Gall y bobl gael gafael ar wasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill mewn modd amserol er mwyn cynnal eu hiechyd a'u llesiant parhaus. Dengys y wybodaeth a oedd wedi'i chynnwys yn ffeiliau gofal y bobl y caiff atgyfeiriadau eu gwneud at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol amrywiol ac y cysylltir â nhw. Gwelsom fod yr atgyfeiriadau hyn yn cael eu gwneud mewn modd amserol a phryd bynnag y byddai anghenion y bobl yn newid. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys manylion am ddewisiadau personol y bobl, a gwelsom fod y staff a'r tîm rheoli yn parchu ac yn gwerthfawrogi'r dewisiadau hyn. Cynllunnir gofal a chymorth drwy gynnwys y bobl ac mewn ffordd sydd wedi'i theilwra i gyflawni eu canlyniadau personol i safon uchel iawn. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd un ffeil gofal yn cynnwys adran 'Amdanaf i,' a dywedodd y dirprwy reolwr wrthym y byddai'n mynd i'r afael â'r mater hwn ar unwaith.

Mae'r staff gofal yn rhyngweithio â'r preswylwyr mewn modd cyfeillgar a pharchus iawn ac maent yn dangos gwybodaeth ragorol am ddymuniadau ac anghenion y bobl a'r ffordd i ymateb iddynt. Caiff dewisiadau'r bobl eu hybu, er enghraifft opsiynau o ran prydau bwyd, diodydd a byrbrydau amrywiol a'r ffordd y mae'r bobl yn dymuno treulio eu hamser. Gwnaethom arsylwi ar y prydau bwyd a ddarperir a'r profiad bwyta a gwelsom y rhoddir ystyriaeth i'r bobl nad oeddent yn gallu cymryd rhan yn ystod y cyfnod hwn a bod gweithgareddau'n cael eu darparu yn unol â dewis y bobl. Gwnaethom siarad â'r cogydd ar ddyletswydd a dywedodd wrthym fod y tîm arlwyo bob amser yn darparu ar gyfer hoff bethau a dewisiadau'r bobl. Gwelsom fod ymdrech arbennig yn cael ei rhoi i gyflwyno prydau bob amser bwyd, gan gynnwys darparu ar gyfer digwyddiadau arbennig a dywedodd y bobl wrthym eu bod wedi mwynhau'r dathliadau diweddar ar gyfer y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd yn fawr. Dywedodd y cogydd wrthym y gallai ddarparu ar gyfer unrhyw brydau y gallai preswylydd ofyn amdanynt a phan fydd pryd bwyd yn cael ei ddychwelyd heb ei fwyta, anogir yr unigolyn i ofyn am ddewis amgen. Mae gan y cartref sgôr hylendid bwyd o 5 (da iawn).

Mae gan y gwasanaeth systemau ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau. Caiff y bobl eu meddyginiaeth fel y'i rhagnodwyd. Gwnaethom edrych ar y cofnodion rhoi meddyginiaeth a

gwelsom eu bod yn cael eu cwblhau'n briodol. Caiff tymereddau’r oergell a'r ystafelloedd eu cofnodi'n ddyddiol gan y staff a gwelsom fod yr ystafell feddyginiaeth yn lân ac yn drefnus. Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo arferion hylan ac yn rheoli'r risg o haint a gwelsom fod y staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol (PPE) priodol pan fo angen.

## Yr Amgylchedd

Caiff y bobl ofal mewn amgylchedd glân a chartrefol. Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag risgiau iechyd a diogelwch amgylcheddol. Mae'r cartref yn cynnig llety da ar gyfer y preswylwyr sy'n byw yn y cartref ac mae'r tîm rheoli wedi dangos ymrwymiad i'w ddatblygu a'i wella er eu budd nhw. Oherwydd natur brysur y gwasanaeth, mae rhai ardaloedd yn dangos ôl traul ac mae amserlen waith yn mynd rhagddi ar hyn o bryd, sy'n cynnwys paentio coridorau a gwaith adnewyddu cyffredinol drwy'r cartref. Gall y bobl fod yn hyderus bod trefniadau effeithiol yn y cartref a fydd yn amddiffyn diogelwch y cyhoedd ac yn lleihau'r risg o groes-heintio. Gwelsom fod gwiriadau clychau galw yn cael eu cynnal a bod clychau galw ar gael ym mhob ardal o'r cartref. Mae'r brif fynedfa i'r cartref wedi'i chloi.

Mae gan y bobl ymdeimlad o berthyn. Mae'r cartref yn fawr ac yn cynnig dewis eang o ardaloedd cymunedol i'r bobl eistedd a mwynhau treulio amser gydag eraill neu dreulio amser tawel ar eu pen eu hunain os byddai'n well ganddynt hynny. Mae ardaloedd bwyta bach/lolfa fach ar gael ym mhob rhan o'r cartref a gwelsom fod y bobl yn gallu defnyddio pob rhan o'r cartref i gymryd rhan mewn gweithgareddau neu fynychu unrhyw ddigwyddiadau arbennig. Mae'r ystafelloedd gwely wedi cael eu personoli gydag eitemau o ddewis y bobl a'u heiddo personol. Mae gerddi mawr ac ardaloedd eistedd wedi'u haddasu a dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau treulio amser yn yr ardaloedd hyn yn ystod tywydd cynnes. Gall y bobl na allant symud yn dda neu'r bobl sy'n defnyddio cyfarpar arbennig sy'n byw yn y cartref neu ar ymweliad fynd i mewn ac allan o'r ardal yn rhwydd. Gwnaethom ystyried amrywiaeth o gofnodion mewn perthynas ag iechyd a diogelwch, a oedd yn dangos bod y darparwr yn cynnal goruchwyliaeth effeithiol er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Roedd yr holl ffeiliau cyfrinachol, gan gynnwys ffeiliau gofal a ffeiliau'r staff, yn cael eu storio'n ddiogel mewn ardaloedd dan glo. Caiff gwiriadau diogelwch amrywiol sy'n gysylltiedig â thân eu cynnal ac mae gan y preswylwyr gynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng. Mae asesiad risg diogelwch tân ac mae'r staff gofal yn ymgymryd â hyfforddiant ar ddiogelwch tân a chymorth cyntaf.

Mae mesurau effeithiol ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn hwyluso ymdrechion i gyflawni canlyniadau personol y bobl. Mae cyfarpar arbenigol ar gael ym mhob ystafell wely, ystafell ymolchi a thrwy'r cartref lle bo angen. Dywedodd y bobl wrthym am yr amrywiaeth o weithgareddau ystyrlon a gaiff eu trefnu yn y cartref bob dydd gyda bron pob unigolyn yn cymryd rhan ynddynt. Mae adran ffisiotherapi yn y cartref, ac mae dau ffisiotherapydd ar gael drwy'r wythnos. Ar adeg yr ymweliadau, gwelsom y bobl yn cwblhau ymarferion amrywiol yn yr adran. Mae'r tîm rheoli a'r staff gofal yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth rhagorol o ddiddordebau'r bobl ac yn sicrhau bod y bobl yn treulio amser yn gwneud yr hyn y maent yn ei fwynhau a'r hyn sy'n bwysig iddynt.

Mae amgylchedd y cartref, y gerddi o amgylch y cartref a'r golygfeydd yn darparu cartref diogel sydd wedi'i addasu'n briodol ac sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda y mae'r bobl yn ei fwynhau ac yn ei werthfawrogi.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gall y bobl fod yn dawel eu meddwl bod y staff yn gymwys i ymgymryd â'u rolau a bod proses recriwtio gadarn ar waith. Gwnaethom edrych ar ffeiliau recriwtio tri aelod o staff a gwelsom eu bod yn cynnwys yr holl wiriadau cyn cyflogi gofynnol ar gyfer unrhyw berson sy'n gweithio mewn gwasanaethau rheoleiddiedig. Roedd y trafodaethau a gawsom â'r staff yn dangos bod tîm sefydledig o staff ar waith a bod staff asiantaeth rheolaidd yn cael eu defnyddio yn ôl yr angen. Dywedodd y staff wrthym fod y nyrsys a'r staff gofal yn gweithio'n dda fel tîm a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi'n dda iawn gan y tîm rheoli.

Mae'r tîm rheoli yn goruchwylio anghenion hyfforddiant a goruchwyliaeth y staff a gwelsom eu bod yn cael sesiynau goruchwylio un i un yn unol â'r gofynion rheoliadol. Mae'r sesiynau goruchwylio yn rhoi cyfleoedd i bob aelod o'r staff drafod ei berfformiad, datblygiad ac unrhyw bryderon a allai fod ganddo. Mae'r staff gofal yn elwa ar gyfleoedd dysgu a datblygu a ddarperir a gwelsom dystiolaeth bod y staff gofal wedi ymgymryd â chyrsiau hyfforddiant gorfodol yn ogystal ag unrhyw anghenion hyfforddiant gofynnol ychwanegol. Caiff y staff eu cefnogi i gofrestru â'r cyrff proffesiynol fel Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu, a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Mae'r bobl yn cael budd o'r trefniadau arwain a rheoli sydd ar waith i sicrhau y caiff y gwasanaeth ei redeg yn ddidrafferth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn treulio amser yn y cartref ac yn rhyngweithio â'r staff, y perthnasau a'r preswylwyr er mwyn ceisio adborth. Gwnaethom ofyn am wybodaeth mewn perthynas â'r broses fonitro a gwelsom ei fod wedi cynnal ei ymweliad monitro ansawdd diwethaf ym mis Rhagfyr 2023. Roedd y wybodaeth yn dangos fod yr Unigolyn Cyfrifol yn ymgymryd â'r broses fonitro yn unol â'r gofynion cyfreithiol. Mae'r systemau a'r prosesau sydd ar waith yn helpu i hyrwyddo'r gwaith o redeg y cartref yn ddidrafferth. Mae archwiliadau clinigol ac anghlinigol manwl ar waith mewn perthynas â meysydd allweddol o'r broses ddarparu gwasanaeth, gan gynnwys maeth, meddyginiaeth a gofal croen. Gwelsom fod y wybodaeth hon yn cael ei hadolygu a'i dadansoddi fel rhan o'r adroddiad ar ansawdd y gofal a gaiff ei lunio bob chwe mis. Mae'r tîm rheoli yn gweithio gydag asiantaethau allanol ac yn rhoi gwybod i'r Rheoleiddiwr am unrhyw ddigwyddiadau mewn modd amserol.

Mae'r bobl yn cael cyfleoedd i fynegi eu barn a gwneud cwynion. Mae polisi cwynion ar waith yn y cartref ac mae'r canllaw ysgrifenedig i'r gwasanaeth yn hysbysu'r bobl o'r ffordd i godi eu pryderon yn ffurfiol. Gall y preswylwyr fod, ac mae'r preswylwyr yn hyderus bod y cartref yn darparu gofal er eu lles pennaf. Mae dulliau ar waith i ddiogelu'r bobl ac mae'r dogfennau sydd ar waith yn nodi'r gwasanaeth y gallant ddisgwyl ei gael ac yn esbonio'r gwasanaeth hwnnw. Mae'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'r staff yn gwybod beth i'w wneud os bydd ganddynt bryderon a gall y bobl gael gafael ar eiriolwyr annibynnol os byddant yn dymuno gwneud hynny a theimlo'n ddiogel wrth wneud hynny os bydd angen.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 12/04/2024